# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.15 – 12.23** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2648**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Kirsty Williams AC (ar gyfer eitemau 2 i 7)**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Peter Black AC (yn lle Kirsty Williams AC ar gyfer eitem 1)** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Kate Johnson, Llywodraeth Cymru**<br>**David Pritchard, Llywodraeth Cymru**<br>**Mari Williams, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)** |

Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Amy Clifton (Ymchwilydd)
Sian Thomas (Ymchwilydd)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

---

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): ystyried y materion allweddol

1.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion sydd wedi codi wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau
2.2 Dirprwyodd Peter Black ar ran Kirsty Williams AC ar gyfer yr eitem yn ymwneud â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

## 3 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan yr Aelodau.
3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- nodyn am unrhyw asesiad ariannol, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol, a wnaed mewn perthynas â'i gwneud yn ofynnol i gofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion;
- amlinelliad o'r wybodaeth y disgwylir iddi gael ei chynnwys yn yr adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad leol y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu paratoi a'u cyhoeddi o dan adran 144B o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod drwy gyfrwng adran 55 o'r Bil);
- rhyw syniad o'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cyhoeddi rheoliadau drafft o dan adran 60(6) a (7) yn ymwneud â gallu Gweinidogion, o dan adran 60, i asesu cynaliadwyedd ariannol darparwyr gwasanaethau.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cofnodion cyfarfod 11 Mawrth 2015
4.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth.

4.2 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru): gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
4.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.3 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru): gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
4.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

4.4 Ymchwiliad i'r gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
4.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 23 Ebrill 2015

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth am y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

## 7 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: trafod y llythyr drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft i'w anfon at y Dirprwy Weinidog Iechyd ac fe'i derbyniwyd yn amodol ar rai mân newidiadau.